

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y cyfarfod: 23 Mawrth 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog: Huw Hilditch-Roberts/ Rhiain Morrle

Awdur yr Adroddiad: Joe Griffiths, Swyddog Moderneiddio Addysg

Teitl Canolfan Asesu Plant Preswyl Isranbarthol – Diweddariad Prosiect

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad ar gynnydd yr Uned Asesu Plant Preswyl Isranbarthol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Darparu diweddariad ar gynnydd yr Uned Asesu Plant Preswyl Isranbarthol.
- 2.2. Mae angen penderfyniad i lofnodi'r Weithred Ariannol mewn Partneriaeth i ganiatáu dyfarnu'r contract ar gyfer adeiladu datblygiad yr Uned.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Cabinet yn lofnodi'r Weithred Ariannol mewn Partneriaeth i ganiatáu dyfarnu'r contract ar gyfer adeiladu datblygiad yr Uned.
- 3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr Adroddiad

Cefndir

- 4.1. Mae Cyngor Sir Ddinbych (CSDd), Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn gweithio mewn

partneriaeth ar gynllun i ddatblygu Uned Asesu Plant Preswyl, a leolir yng Nghonwy, gyda CBSC fel Partner Arweiniol.

- 4.2. Bydd y prosiect yn darparu 3 adeilad a adeiladwyd yn bwrpasol gan gynnwys uned asesu, ynghyd â llety preswyl wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio ar gyfer hyd at 6 o blant a phobl ifanc am uchafswm o 12 wythnos.
- 4.3. Mae'r bwrdd prosiect wedi cynnig mai enw adeilad yr uned fydd Bwthyn y Ddôl, sef cyfieithiad Cymraeg enw'r safle'r presennol, Meadow Lodge. Bydd yr enw nawr yn cael ei ystyried yng Nghabinet CBSC i'w gymeradwyo, fel partner arweiniol.
- 4.4. Cafwyd y cais cynllunio ei ddiogelu gan CBSC ym mis Tachwedd 2020.
- 4.5. Bydd y gwaith adeiladu yn cael ei gyllido'n llawn gan Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru. Cost yr adeilad yw £2,687,524 ac mae grant y Gronfa Gofal Integredig ar gael ar gyfer blynyddoedd ariannol 2020/21 a 2021/2022.
- 4.6. Mae'r tendr ar gyfer caffael contractwr adeiladu sydd wedi cael ei gynnal gan CBSC drwy Fframwaith Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru. Mae gwerthusiad o'r tendr wedi cael ei gynnal, a bydd y contract yn cael ei ddyfarnu yn amodol ar gael ei lofnodi gan Weithred Cyllid CBSC a CSDd (Atodiad 2).
- 4.7. Rhagwelir bydd y gwaith adeiladu ar y safle yn cychwyn yn ystod gwanwyn 2021, a bydd disgwyl i'r gwaith ddod i ben yn ystod gwanwyn 2022.
- 4.8. Cynigir cytuno i lofnodi'r Weithred Ariannol i ganiatáu i CBSC i benodi'r contract adeiladu i'r contractwr buddugol i ganiatáu iddynt ddechrau ar y gwaith o adeiladu'r Uned.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Mae'r cynnig yn bodloni blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Amcangyfrifir mai'r costau cyfalaf ar gyfer y prosiect fydd £2.687 miliwn. Cafodd achos busnes ei gymeradwyo gan Grŵp Buddsoddi Strategol Sir Ddinbych ar 16 Chwefror, 2021 (Atodiad 3).
- 6.2 Bydd cadarnhad o'r costau referniw yn cael ei ffurfioli fel rhan o Gytundeb Cydweithio a Phartneriaeth ar wahân. Mae Gwasanaethau Plant yn profi pwysau ariannol o un flwyddyn i'r llall oherwydd niferoedd a chymhlethdod lleoliadau, ac mae'n annhebygol y byddai'r gwasanaeth yn gallu ariannu'r costau referniw ychwanegol o fewn cyllidebau cyfredol. Mewn gwirionedd, bydd y prosiect, os yw'n llwyddiannus, yn debygol o leihau pwysau parhaus yn y maes hwn.

7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1 Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar les (Atodiad 1). Cynhaliwyd yr Asesiad gyda mewnbwn gan swyddogion Addysg a Gwasanaethau Plant, CBSC a BIPBC a chafwyd 3 seren allan o 4. Yn gyffredinol, bydd y prosiect yn cael effaith gadarnhaol. Mae'r ddogfen wedi asesu'r prosiect ac ni fydd rhai o'r elfennau, oherwydd bod y prosiect wedi'i leoli yng Nghonwy, yn effeithio'n uniongyrchol ar Sir Ddinbych. Serch hynny, mae ei effaith ar y rhanbarth / ardal wedi cael ei ystyried wrth lunio'r adroddiad.

8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1.1 Mae CBSC, fel partner arweiniol, wedi cynnal ymgysylltiad gyda chefnogaeth gan CSDd i ymgysylltu gyda phartneriaid/budd-ddeiliaid, a gellir dod o hyd i restr o'r partneriaid hyn yn Atodiad 4.
- 8.1.2 Mae'r Bwrdd Prosiect yn adrodd i'r Bwrdd Prosiect, sy'n cynnwys Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol Plant a Theuluoedd Cabinet CBSC ac Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltiad Cyhoeddus CSDd, yn ogystal â chynrychiolaeth o'r pwyllgor archwilio.

8.1.3 Mae adborth cyffredinol ar gyfer y datblygiad wedi bod yn gadarnhaol, ac mae'r adborth wedi dylanwadu ar ddylunio a chynllun yr adeilad.

9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r penderfyniad i barhau gyda phrosiect cyfalaf Uned Asesu Plant Preswyl a arweinir gan Gonwy wedi cael ei drafod a'i gymeradwyo gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Mae'r elfen gyfalaf yn cynrychioli risg bach, ac mae'n cael ei ariannu drwy grant a'i arwain gan Gyngor Sir Conwy. Nodir bod y cytundeb yn datgan "Yn dilyn cwblhad y Contract Gwaith, mae'r Partïon yn cydnabod y bydd gweithrediad y Ganolfan yn amodol ar drefniadau cyllid a llywodraethu ar wahân" ... y mae'r partïon yn cytuno i'w gweithredu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol". Mae hyn yn cael ei groesawu, serch hynny, mae'n bwysig bod Cyllid CSDd yn cael ei gynnwys yn y trafodaethau hynny, cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau y gellir asesu unrhyw effaith refeniw ariannol parhaus.

10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Byddai costau Ymgynghorwyr sydd eisoes wedi cael eu cynhyrchu ar y datblygiad, gan ei gyflwyno i Gam 3 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain, yn cael eu colli os nad yw'r datblygiad yn gallu parhau. Efallai byddai Llywodraeth Cymru yn cwestiynu'r dull hwn gan y Cyngor.

10.2 Ar hyn o bryd, nid oes y fath gyfleuster yng Ngogledd Cymru, ac mae Gofal Cymdeithasol yn cael eu gorfodi i wneud lleoliadau mewn argyfwng lle bynnag mae lle gwag, sy'n aml yn ddrud a thu allan i'r sir.

10.3 Bydd angen i Wasanaethau Plant ddiogelu cyllid refeniw ar gyfer costau parhaus staffio, cynnal a chadw ac adfeilio, a chyllido amser swyddogion ar gyfer rheoli'r adeilad, y tir a gwasanaethau mewnol. Bydd cadarnhad o'r costau hyn yn cael ei ffurfioli fel rhan o Gytundeb Cydweithio a Phartneriaeth ar wahân.

10.4 Mae risg y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn caniatáu peiriannau trwm, gwaith stancio neu gloddio ar y safle yn ystod y tymor pan nad yw'r Moch Daear yn bridio yn unig, sef mis Gorffennaf i fis Tachwedd, a allai beryglu grant Cronfa

Gofal Integredig Llywodraeth Cymru. Mae cais ar gyfer trwydded moch daear gan Gyfoeth Naturiol Cymru'n cael ei drafftio i'w gyflwyno iddynt unwaith y penodwyd contractwr, a darparwyd datganiad o'r dull adeiladu.

11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae gofyn i'r Cabinet awdurdodi dechrau'r weithdrefn gaffael yn unol ag adran 2.7.2 iii Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor.

11.2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 adran 2, y pŵer i ymrwmo i drefniadau, sy'n hwyluso ac sy'n ffafriol i les amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

11.3 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 adran 12 (2) o ran dyletswyddau cydweithio.

11.4 Mae'r cynnig yn bodloni nodweddion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, wrth ganolbwyntio ar sicrhau ymyrraeth gynnar ac atal er mwyn osgoi lefelau uchel o ddibyniaeth a chostau.

11.5 Mae gan y Cyngor hefyd bŵer i fynd i gcontractau yn unol ag adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (pŵer i ymgymryd ag unrhyw weithred i hwyluso, neu sydd yn ffafriol neu ddamweiniol, cyflawniad ei swyddogaethau yn llawn); adran 135 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (pŵer i wneud rheolau sefydlog i lywodraethu mynd i gcontractau), adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (penodi gymaint o swyddogion ac sydd rhaid er mwyn cyflawni swyddogaethau'r awdurdod); adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 1999 (dyletswydd gyffredinol ar awdurdod gwerth gorau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran y ffordd mae ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni).